

Cofnod o'r Penderfyniadau a wnaed gan y Panel Gwaith ddydd Llun 21 Medi 2026



Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad / Datrysiaid
1	Presenoldeb ac Ymddiheuriadau	Cynghorwyr yn bresennol: Dylan Rees (Cadeirydd); Mark Young (Dirprwy Gadeirydd); Rondo Roberts; Chris Hughes; John Ifan Jones; Gareth Williams; Antony Wren; Alan Hughes; Gareth A Roberts; Paul Cunningham; Charlie McCoubrey Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carol Beard; Sian Williams; Paul Rogers Yn absennol: Y Cynghorwyr; Dale Selvester Hefyd yn bresennol: PST Dawn Docx; PSTC Helen MacArthur; PSTC Anthony Jones; PSTC Justin Evans; Dafydd Edwards, Cynghorydd; Gareth Owens, Clerc a Swyddog Monitro; Steve Morris, Pennaeth TGCh; Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid; Lee Bourne, Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu; Heledd Davies, Cyfieithydd; Ffion Evans, Cynorthwyydd Gweithredol – cofnodwr
2	Datganiadau o Fuddiant	Dim.
3	Hysbysiad o Faterion Brys	Dim.
4	Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2026	i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2026.
5	Adroddiad Gweithgaredd Tanau Gwyllt – Haf 2026	i) nodi graddfa ac effaith gweithgarwch tanau gwyllt haf 2026; ii) cydnabod cyfraniad personél y Gwasanaeth, asiantaethau partner, gwirfoddolwyr a chymunedau lleol;

Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad / Datrysiaid
		iii) a chefnogi'r gwaith sy'n dal i fynd rhagddo i gofnodi gwersi a ddysgwyd, i gryfhau gweithgarwch atal tanau gwyllt a gwydnwch, i adlewyrchu gofynion yr ochr weithredol a gofynion ariannol sy'n dod i'r amlwg wrth gynllunio at y dyfodol.
6	Llythyr Llywodraethiant gan Weinidog y Cabinet	i) Nodi cynnwys y llythyr a'r cadarnhad o drefniadau newydd i'w gweithredu ar ôl etholiadau llywodraeth leol yn 2027 ii) Comisiynu Clerc yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân i ddatblygu'r strwythurau llywodraethiant, y trefniadau cyfansoddiadol a'r model gweithredu newydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Tân presennol cyn iddo gael ei ddiddymu yn 2027.
7	Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Atodol	i) Nodi'r ymateb a roddwyd
8	Proses Benodi ar gyfer Swydd Prif Swyddog Tân	i) Nodi'r broses fel yr amlinellir isod; a ii) Cadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodiad.
9	Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/26	i) nodi cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2025/26; a ii) cymeradwyo Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/26 i'w adolygu a'i ystyried gan yr Awdurdod Tân ac Achub cyn ei gyhoeddi ar y wefan.
10	Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025/26	i) Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol terfynol, a: ii) Cytuno ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2026/27
11	Adroddiad Monitro Perfformiad Ch1 2026/27	i) Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad
12	Datganiad Terfynol o Gyfrifon 2025/26	i) Nodi'r sefyllfa a'r perfformiad alldro archwiledig fel y'i manylir yn Natganiad Cyfrifon 2025/26 (Atodiad 1); ii) Nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cadarnhau barn archwilio anghymwys (Atodiad 2); iii) Cymeradwyo'r llythyr cynrychiolaeth arfaethedig (Atodiad 2); a

Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad / Datrysiaid
		iv) Cadarnhau'r argymhelliad i gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon wedi'i archwilio ar gyfer 2025/26.
13	Materion Brys	Dim.